Adroddiad i'r	Pwyllgor Safonau
Dyddiad y cyfarfod	8 Rhagfyr 2023
Aelod Arweiniol / Swyddog	Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Llywodraethu a Busnes/ Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad	Lisa Jones, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro
Teitl	Adroddiad Blynyddol y Cadeiryddion

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Safonau i alluogi'r Pwyllgor llawn gael golwg a chyfrannu at Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd, cyn i'r eitem gael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn. Mae'r adroddiad llawn ynghlwm fel Atodiad 1.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunwyd gan Aelodau'r Pwyllgor hwn y dylai Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno ar waith y pwyllgor a'i ganfyddiadau a'i arsylwadau, i holl Aelodau'r Cyngor bob blwyddyn fel rhan o ymgyrch y Pwyllgor i wella safonau ymddygiad moesegol ac i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

3.1 Nodi cynnwys yr adroddiad.

3.2 Darparu sylwadau i'r Swyddog Monitro ar gynnwys yr adroddiad i sicrhau ei fod yn adlewyrchu barn y Pwyllgor hwn yn gywir.

3.3 Argymell bod y Cadeirydd yn cyflwyno hwn i'r Cyngor Llawn

4. Manylion yr adroddiad

Mae'r adroddiad drafft ynghlwm yn Atodiad 1 i'w ystyried.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Pwyllgor Safonau cwbl weithredol a chynrychioliadol ac sy'n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan Aelodau yn helpu i ategu'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau democrataidd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn ac nid oes unrhyw oblygiadau ar gyfer y gwasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid yw'n ofynnol asesu'r effaith ar les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau eraill wedi eu hystyried yn ofynnol; yr adroddiad hwn yw'r ymgynghoriad â'r Pwyllgor Safonau ac maent yn fodlon bod yr adroddiad yn adlewyrchu safbwynt y Pwyllgor a'r Cadeirydd o ran cadw at God Ymddygiad Aelodau yn y Sir a sylwadau o ran uniondeb a moeseg yn gyffredinol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes ei angen.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risg wedi'i nodi.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygiad) 2006.